Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Corn Hir
# Caban Y Cylch
# Ysgol Corn Hir
# Llangefni
# LL77 7JB

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Corn Hir

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Corn Hir |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Lynne Edwards a Rhian Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Lynne Edwards |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | Dwy a hanner hyd bedair oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 11 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 30 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener o 8:45 i 11:15 a 12:15 hyd 14:45. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 09/02/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Gorffennaf 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/02/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Cymraeg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae ychydig o'r plant wedi eu hadnabod ag anghenion addysgol arbennig. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig nad oedd ffeiliau pob ymarferydd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol.  Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.  Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod  arolygiad nesaf AGC.

## Argymhellion

A1  Ehangu cyfleoedd i’r plant wneud dewisiadau am y camau nesaf yn eu dysgu

A2  Mynd i’r afael â’r mater o ddiffyg cydymffurio

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud a gyda phwy. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth ati i ddewis y jig-so maent yn ei hoffi orau ac yn mwynhau ymuno â'u ffrindiau i chwarae. Mae mwyafrif y plant yn cyfathrebu eu dewisiadau yn hyderus ac ymatebir i'w ceisiadau ar unwaith. Mae bron pob un plentyn yn ffarwelio â'u rhieni yn hyderus ar ôl cyrraedd y lleoliad ac yn cyfarch ymarferwyr ac ymwelwyr yn hapus wrth iddynt gerdded i mewn. Maent yn ymgartrefu'n syth ac yn deall y drefn ddyddiol yn dda. Er enghraifft, mae pob un yn cofrestru eu hunain trwy arddangos eu llun ar yr arddangosfa 'pwy sydd yma heddiw'. Mae rhan fwyaf y plant yn llwyddo i greu perthynas dda â'u ffrindiau a'r ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn mynd at ymarferwyr i gael eu cysuro pan maent yn teimlo ychydig yn drist ac yn gafael yn llaw ffrind wrth fynd allan i chwarae.

Mae rhan fwyaf y plant yn deall ac yn cadw at reolau ymddygiad y lleoliad yn arbennig o dda. Maent yn siarad yn garedig â'i gilydd, gan rannu offer a theganau heb ffwdan. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dathlu llwyddiannau gyda'u ffrindiau, er enghraifft trwy ymuno i ganmol plentyn sy'n enwi dyddiau'r wythnos yn gywir yn ystod amser cylch. Mae bron pob un yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd ac yn ystyrlon o anghenion a dymuniadau plant eraill.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n eu cadw'n brysur a'u hysgogi. Er enghraifft, maent yn mwynhau llenwi cynwysyddion o wahanol faint gyda reis a phasta lliw, naill ai drwy ddefnyddio eu dwylo neu efeiliau bwyd i gyflawni'r dasg. Maent yn cydweithio'n aeddfed wrth ddefnyddio brwshys a mop i gadw'r gornel chwarae rôl yn lân. Yn ogystal, mae llawer o'r plant yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae ac yn canolbwyntio ar adeiladu trac trên cyfan, gan weithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r gamp.

Mae llawer o'r plant yn dysgu sut i gyflawni tasgau yn gynyddol annibynnol. Er enghraifft, maent yn llwyddo i wisgo hetiau a chotiau cyn mynd allan i chwarae ac yn eu tynnu a'u cadw wrth ddod yn ôl i mewn i'r adeilad. Maent yn arddangos lefel dda iawn o ddyfalbarhad â'u gwaith ac yn cynnal diddordeb am gyfnodau estynedig. Mae bron pob un plentyn yn dysgu sut i gadw'n iach yn gyson drwy dreulio amser yn yr awyr agored, bwyta byrbrydau iach a thrwy olchi a sychu eu dwylo yn briodol.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymateb yn aeddfed i gyfleoedd i wneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu trwy drafod gyda'r staff beth maent yn ei wybod yn barod am wahanol themâu. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i drafod yr hyn roeddent wedi ei weld ar y teledu ynglŷn â'r tanau diweddar yn Awstralia ac effaith hynny ar yr anifeiliaid oedd yn byw yn y fforestydd yno.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn gyda'u llafaredd yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar ymarferwyr. Mae'r

rhan fwyaf yn trafod yn naturiol a chyda lefel dda o gywirdeb yn Gymraeg, gan gynnwys plant sy'n dysgu'r iaith. Mae plant sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol gyda medrau iaith yn gwneud cynnydd da, gan ffurfio synau'n gynyddol hyderus. Mae llawer o'r plant mwyaf abl yn trafod yn aeddfed gyda'u ffrindiau mewn brawddegau estynedig, gan gyfeirio at wahanol weithgareddau, er enghraifft wrth iddynt drafod y stori am yr ymerawdwr Jade yn penderfynu pa anifail fyddai'n croesi'r afon gyflymaf.

Mae rhan fwyaf y plant yn arddangos medrau darllen cynnar cadarn. Maent yn mynd i'r gornel lyfrau yn ddigymell ac yn mwynhau troi tudalennau a thrafod y stori'n naturiol. Mae llawer yn darllen geiriau cyfarwydd yn hyderus, er enghraifft wrth drafod gwahanol anifeiliaid oddi ar galendr Tseina. Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda. Maent yn creu marciau mewn gwahanol gyd-destunau. Mae gan lawer reolaeth briodol ar offer ysgrifennu, ac maent yn creu llythrennau, naill ai drwy dracio llythyren ar bapur neu drwy ysgrifennu'n annibynnol. Mae llawer yn ysgrifennu eu henwau'n llwyddiannus, tra mae ychydig o blant mwyaf abl yn ysgrifennu geiriau syml fel 'panda' a 'baner' gyda lefel dda o gywirdeb.

Mae llawer o'r plant yn cyfri yn hyderus hyd at 20 wrth drafod pwy sy'n bresennol yn y cylch ben bore. Maent yn cyfateb niferoedd o fwclis a ffrwythau i rifau wrth eu gosod ar y goeden liwgar yn yr ardal greu. Mae llawer yn cyfeirio at wrthrychau mawr, canolig a bach, ac at bethau trwm ac ysgafn yn yr ardal adeiladu. Yn ogystal, mae lleiafrif yn deall sut i fesur gan ddefnyddio offer pwrpasol wrth chwarae fel adeiladwyr. Maent yn adnabod priodweddau siapiau fel cylch, triongl, sgwâr a phetryal, ac yn sylwi arnynt yn yr amgylchedd.

Mae llawer o blant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfarwyddiadau i geir electonig ac yn defnyddio amrediad o apiau i wrando ar ganeuon cyfarwydd. Mae lleiafrif o blant yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn lled annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd lleoliad penodol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud rhagfynegiadau deallus ac amcangyfrif gan ddefnyddio medrau rhifedd mewn cyd-destun ymestynnol.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau corfforol yn dda. Maent yn cynnal cydbwysedd ac yn arddangos nerth da wrth ddringo ar yr offer yn yr ardal allanol. Mae rhan fwyaf y plant yn arddangos medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth ganu caneuon gan gynnal traw ac ystyried gwahanol guriadau a rhythm. Yn ogystal, maent yn creu darluniau lliwgar mewn amrywiol gyfryngau ac yn fedrus wrth ddefnyddio blociau bach i greu modelau o'u cartrefi eu hunain.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n hynod dda fel tîm ac mae'r sesiynau'n rhedeg yn effeithiol er lles y plant.

Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o brosesau a gweithdrefnau diogelu. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o weithdrefnau ar gyfer sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint ac yn

annog y plant i olchi dwylo cyn iddynt fwyta.  Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n  dilyn y polisi ar gyfer rhoi meddyginiaeth i blant yn ddigon trylwyr.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i weithredu arferion da mewn perthynas â bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw, er mwyn gwella dealltwriaeth a lles y plant.  Er enghraifft, maent yn paratoi byrbrydau a diodydd iach ac yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd pwrpasol i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau rôl da ac mae ganddynt berthynas  gadarnhaol â'r plant.  Maent yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson ac yn dathlu cyflawniadau'r plant ar bob cyfle gyda chanmoliaeth a chynhaliaeth wirioneddol. Mae ymarferwyr yn gosod strwythur clir ar gyfer y gweithgareddau ac yn atgoffa'r plant o beth fydd yn digwydd nesaf.  Mae'r eglurder hwn yn cynnal diddordeb y plant yn effeithiol ac yn golygu bod plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn hynod garedig o ran eu ffordd o weithio ac yn creu amgylchedd hapus  lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i gynllunio ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad plant a chyfoethogi eu profiadau gan ymateb i anghenion unigolion.

Mae ymarferwyr yn dilyn prosesau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnal grwpiau iaith defnyddiol, sy'n rhoi cymorth ychwanegol effeithiol i blant ag anawsterau iaith a lleferydd.  Mae ymarferwyr yn cadw cofnod o gynnydd y plant er mwyn cynllunio gweithgareddau cyfoethog ar eu cyfer sy'n targedu medrau penodol yn ôl yr angen.

Mae ymyraethau penodol yn cael eu gweithredu'n rheolaidd gyda phlant sydd angen cynhaliaeth ychwanegol mewn maesydd fel iaith a lleferydd.  Mae gan ymarferwyr berthynas weithio agos gydag asiantaethau arbenigol, ac o ganlyniad i'r gwaith, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae ymarferwyr yn dilyn trefn gynllunio fanwl a hylaw sy'n eu galluogi i drefnu ystod eang a chyfoethog o weithgareddau a phrofiadau dysgu buddiol ar gyfer y plant. Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno trwy ystod o weithgareddau sbardunol sy'n annog datblygiad medrau ac annibyniaeth y plant yn llwyddiannus.  Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu'n ymateb yn bwrpasol i anghenion y plant, ac yn dethol amrediad difyr o themâu sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gynnig eu syniadau eu hunain ar gyfer y gwahanol themâu, er enghraifft wrth drafod eu hoff anifail oddi ar y calendr Tsieineaidd.  Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i'r plant mwyaf abl  wneud dewisiadau drostynt eu hunain o ran eu dysgu wedi datblygu'n llawn hyd yma.

Mae gweithgareddau fel dathlu gwahanol ddiwylliannau yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn ymestyn profiadau chwarae a dysgu'r plant yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi dysgu cân Tsienieaidd i'r plant ac wedi cysylltu'r thema â nifer o'r gweithgareddau dyddiol, sy'n rhoi dealltwriaeth gadarn i blant o ddiwylliant gwahanol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent wedi sefydlu cydbwysedd effeithiol o weithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau dysgu annibynnol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant fod yn weithredol, tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Mae ymarferwyr yn amseru gweithgareddau yn llwyddiannus, ac yn holi'r plant yn fedrus. Yn ogystal, maent yn darparu amser meddwl iddynt sy'n datblygu eu medrau meddwl yn dda. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth y plant o fondiau rhif hyd at ddeg wrth annog y plant i ddyfalu faint o fabis y llygod mawr sydd ar ôl yn y fasged. Mae'r holl staff yn fodelau iaith effeithiol iawn. Maent yn trafod yn gwbl naturiol gyda'i gilydd a gyda'r plant yn ystod gweithgareddau, ac mae'r plant yn efelychu hyn yn aeddfed wrth drafod eu gweithgareddau.

Mae gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd y plant wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r ymarferwyr yn gosod gwaelodlin ar gyfer pob plentyn wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad, ac yn nodi cynnydd arwyddocaol yng nghofnod personol y plentyn. Mae hyn yn crynhoi eu cynnydd yn effeithiol, ac yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u Cymreictod trwy ymweliadau â mannau lleol fel Llyn Cefni ar daith gerdded, neu wrth ymweld â lleoliad cyfagos sydd yn magu gloÿnod byw. Maent yn gosod eu gwaith mewn cyd-destun moesol a diwylliannol ehangach trwy ddysgu am wahanol wledydd a diwylliannau, a thrwy wrando ar straeon Beiblaidd. Gwahoddir aelodau'r gymuned i drafod eu gwaith gyda'r plant. Er enghraifft, cafwyd ymweliadau buddiol gan swyddogion yr Heddlu, y gwasanaeth tân ac ambiwlans, a pheilot hofrennydd achub, wrth i'r plant ddysgu am 'bobl sy'n ein helpu ni.'

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r amgylchedd yn ddiogel a glân ac yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn llwyddiannus. Mae'r drysau wedi eu cloi a'r ardal tu allan yn gaeedig. Mae gan yr ymarferwyr drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân, y larwm tân ac offer trydanol yn gyfredol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y gwasanaeth adnoddau ac offer yn lân ac o ansawdd da.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r ystafell chwarae yn lliwgar gydag arddangosfeydd o waith y plant sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn a balchder i'r plant. Trefnir ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn coginio bwyd yn y popty ac yna ei weini i'w cwsmeriaid am gost o dair ceiniog. Mae arweinwyr yn llwyddo i ddarparu amgylchedd groesawgar a hwyliog sy'n rhoi cymhelliant i'r plant yn eu datblygiad ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus. Er enghraifft, yn dilyn chwarae yn y gegin fwd yn yr ardal allanol, mae'r plant yn gwenu o glust i glust wrth ddangos eu dwylo mwdlyd i bawb. Dywed ymarferwr ei fod wedi gwneud cacen o goncyrs ond mae'r plentyn yn eu hatgoffa ei fod go wir yn gacen cyffug siocled!

Mae amrediad da o offer yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad medrau'r plant, er enghraifft wrth ddatblygu hyder a chryfder corfforol ar yr offer dringo, neu wrth greu dawns trwy ddefnyddio rhubanau a dilyn y ddraig ar ei thaith ar draws y cae.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn cefnogi datblygu medrau a gwybodaeth y plant yn llwyddiannus. Fe'u cedwir ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. Mae arweinwyr yn darparu adnoddau naturiol, adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau o'r cartref i gynnig amrywiaeth i'r plant. Mae hyn yn hybu ethos o gynaliadwyedd yn y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl offer yn addas i oedrannau'r plant, sy'n cynnwys cornel ddistaw iddynt ymlacio a threfniadau i alluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled a'r basn golchi dwylo yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn ymroi'n llwyr i'w gwaith, ac mae wedi llwyddo i greu darpariaeth hapus lle mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae'n arwain tîm brwdfrydig a chydwybodol, sy'n cydweithio'n effeithiol i wireddu eu gweledigaeth ar gyfer datblygu plant hyderus a medrus. Maent yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu personoliaethau'r plant, gan barchu eu cryfderau a'u diddordebau. Mae'r arweinydd yn derbyn cefnogaeth effeithiol gan ei chyd- berson cofrestredig a'r pwyllgor rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod elfennau cyllidol a threfniannol y lleoliad. Maent yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd er mwyn craffu ar weithgareddau dysgu'r plant. Maent yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd a gofalus. Mae'r datganiad o bwrpas yn ddogfen ddefnyddiol ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

Mae'r arweinydd wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a chynnydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn ystyried agweddau sydd angen sylw fel rhan o'u gwaith beunyddiol, gan gyfarfod er mwyn trafod agweddau penodol fu'n llwyddiannus, neu rai sydd angen eu haddasu. Mae hyn yn arwain at flaenoriaethau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r agweddau hyn yn cael eu llunio'n gynllun gwella cryno sy'n amlinellu camau gweithredu ynghyd â dyraniad cyllid, a threfniadau gwerthuso. Er enghraifft, rhoddwyd sylw diweddar i ddatblygu ystod ehangach o adnoddau er mwyn datblygu medrau corfforol y plant. Trwy gydol eu gwaith, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygiad plant, gan adnabod agweddau sy'n effeithiol, ac adnabod agweddau y gallent eu datblygu ymhellach.

Mae gan y lleoliad ystod dda o ymarferwyr gyda'r cymwysterau priodol ar gyfer diwallu anghenion y plant. Mae trefniadau ar gyfer gwerthuso eu perfformiad yn effeithiol ac mae blaenoriaethau hyfforddiant yn derbyn sylw cyson ac yn canolbwyntio ar gyfoethogi'r ddarpariaeth. Er enghraifft, yn sgil hyfforddiant ar greu ardaloedd dysgu symbylus, mae'r ymarferwyr wedi ychwanegu at adnoddau o fewn gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth barhaus yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ffeiliau pob ymarferydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn ateb gofynion.

Mae’r arweinydd yn hwyluso perthynas weithredol a llwyddiannus gydag amrediad o asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda’u gwaith. Er enghraifft, mae perthynas weithio agos gyda’r ysgol gyfagos yn hyrwyddo’r broses drosglwyddo i’r ysgol, maes o law. Mae gan yr arweinydd a’r ymarferwyr berthynas gadarnhaol iawn â rhieni’r plant. Maent yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda’r rhieni er mwyn trafod cynnydd, a lles y plant. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored sy’n caniatáu iddynt grybwyll unrhyw beth ynglŷn â datblygiad neu les eu plentyn. Mae’r ymarferwyr yn rhannu crynodeb o waith thema’r tymor gyda’r rhieni, ac mae system negesuon electronig yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am ddigwyddiadau’r cylch.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2020